

GWERTHUSO PROSES GWERTHUSO'R DDEDDF GWASANAETHAU CYMDEITHASOL A LLESIANT



Mae'r ddogfen hawdd ei deall hon yn darparu canfyddiadau'r Gwerthuso Proses.



Rhan ydy hyn o Werthusiad y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant. Enw'r Gwerthusiad hwn ydy astudiaeth IMPACT.

Gellir cael rhagor o wybodaeth ar y Ddeddf mewn fformat hawdd ei ddeall ar:
<https://gov.wales/sites/default/files/publications/2019-06/social-services-and-well-being-wales-act-easy-read.pdf>

Mae Llywodraeth Cymru am wybod pa or dda mae'r Ddeddf wedi bod yn gweithio yng Nghymru.

BETH YDY GWERTHUSO PROSES?



Mae Gwerthuso Proses yn ystyried sut mae'r Ddeddf yn cael ei gweithredu. Mae hefyd yn ystyried pa mor dda mae'r Ddeddf wedi bod yn gweithio yng Nghymru.

Mae'n gwneud hyn drwy'r pum egwyddor:



1. Ataliad



2. Llesiant



3. Llais a Rheolaeth



4. Cyd-gynhyrchu

5. Gwaith aml-asiantaethol



Mae hefyd yng wneud hyn drwy ystyried pum grŵp:



1. Defnyddwyr Gwasanaeth



2. Gofalwyr



3. Teuluoedd a Chymunedau

4. Gweithwyr



5. Sefydliadau

Mae Gwerthuso Proses yn ffocysu ar grwpiau 4 a 5.



Roedd hyn yn ein helpu ni i ddeall y gwaith y mae pobl yn ei wneud i weithredu nodau'r Ddeddf.



Byddwn yn siarad â defnyddwyr y gwasanaeth yn rhan nesaf yr astudiaeth yn 2021.



Siaradon ni gyda gweithwyr proffesiynol a sefydliadau ledled Cymru. Gwnaethon ni hyn er mwyn deall a ydy'r Ddeddf yn gweithio'n dda.

Ar gyfer hyn, fe ddefnyddion ni'r canlynol:



1. Arolwg a anfonwyd at sefydliadau a rhwydweithiau ar draws Cymru



2. Cyfweiliadau gyda gweithwyr mewn pedair rhan wahanol o Gymru. Roedd y rhain yn sefydliadau pwysig yng Nghymru.


Yn gyfan gwbl, fe siaradon ni â 150 o bobl a derbyn 30 arolwg.



Cynhaliwyd yr arolygon a'r cyfweiliadau hyn i gyd cyn Covid-19. Digwyddodd y rhain rhwng Ionawr a Mawrth 2020.

CANFYDDIADAU PWYSIG

Egwyddorion y Ddeddf



Roedd pobl yn hoffi egwyddorion sylfaenol y Ddeddf.

Ond dywedon nhw bod angen rhagor o waith i roi'r egwyddorion ar waith.

Ataliad



Cafwyd rhai enghreifftiau o ataliad ond dydy hyn ddim yn gyson bob amser.

Cymysg oedd y profiadau o gael digon o gyllid ar gyfer ataliad.

Cyd-gynhyrchu



Cafwyd enghreifftiau da o gyd-gynhyrchu. Roedd y rhain yn helpu pobl i ddatblygu gwasanaethau gofal a chymorth addas ar eu cyfer.

Ond dwedodd pobl bod gweithredu cyd-gynhyrchu yn briodol yn heriol.

Llesiant



Mae llesiant yn bwysig i bobl ond gall fod yn anodd i'w ddeall. Gall hefyd fod yn anodd i'w fesur.



Mae cynorthwyo llesiant yn golygu bod rhaid i bobl deimlo mai nhw sy'n gyfrifol am eu gofal eu hunain. Rhaid iddyn nhw deimlo y gallan nhw drafod yr hyn sy'n bwysig iddyn nhw.

Llais a rheolaeth



Mae gweithwyr yn fwy ymwybodol o'r modd y gallan nhw helpu pobl i ddweud eu dweud.



Mae'n bwysig atgoffa pobl yn barhaus y gallan nhw leisio'u barn a chael eu clywed.

Gweithio aml-asiantaethol



Cafwyd enghreifftiau da o wahanol fathau o staff yn cydweithio'n dda.

Ond mae 'na fylchau. Dydy e ddim yn gweithio'n dda ymhob man.



Mae ymddiried yn ei gilydd a chael perthynas dda yn bwysig ar gyfer timau sy'n cydweithio.

Gweithredu'r Ddeddf



Mae'r Ddeddf wedi cynorthwyo dulliau newydd o weithio.

Mae partneriaethau'n llawer cryfach oherwydd y Ddeddf.



Roedd hyfforddi pobl i baratoi at weithredu'r Ddeddf yn ddefnyddiol.



Dydy gweithredu'r Ddeddf ddim wedi gorffen. Mae rhagor i'w wneud.



Mae angen i fwy wybod am gynnwys y Ddeddf. Bydd hyn yn sicrhau bod mwy'n cael yr hyn sydd ei angen arnyn nhw.

Gwasanaethau Awdurdodau Lleol a gwasanaethau cymdeithasol

Asesiadau



Roedd asesiadau yn ffocysu mwy ar yr hyn sydd ei angen ar bobl.



Dywedodd pobl eu bod yn dymuno cael mwy o reolaeth leol dros y modd y caiff asesiadau eu cynnal.

'Yr hyn sy'n bwysig'



Ystyriwyd bod sgryrsiau 'Yr hyn sy'n bwysig' yn bethau da. Maen nhw'n helpu i ddarganfod yr hyn sy'n bwysig i bobl.

Deilliannau



Mae mesur deilliannau yn anodd.

Mae rhagor i'w wneud i wella hyn.

Trefnu gwasanaethau



Mae rhagor i'w wneud i sicrhau bod pethau'n digwydd yn yr un modd ymhobman yng Nghymru.

Cadw pobl yn ddiogel



Mae'r dull newydd o gadw pobl yn ddiogel wedi bod yn dda.

Cynorthwyodd pobl i gydweithio yn well.

Cysylltiadau gyda gweithwyr eraill

Mae arweinyddiaeth dda yn bwysig i wella gwasanaethau.



Mae'r Ddeddf wedi helpu i wella cysylltiadau. Mae hyn yn arbennig o wir ar gyfer gwasanaethau iechyd a chymdeithasol.



Mae angen rhagor o amser ac adnoddau i sefydlu cysylltiadau hyd yn oed yn well.



Mae'r sector gwirfoddol yn gweithio'n wirioneddol dda fel partner. Ond mae pryderon nad oes gan y sector ddigon o arian.

Mae gwahaniaethau yn y modd y cynorthwyr gwahanol bobl. Mae angen i hyn newid.

Perthynas gyda sefydliadau eraill



Mae perthynas dda rhwng y gwahanol sefydliadau yn bwysig.

Mae angen rhagor o waith i wella'r berthynas hon.



Mae maint rhai ardaloedd yng Nghymru yn ei gwneud hi'n anodd i gydweithio.

Y Gweithlu



Mae angen i weithwyr gael eu cynorthwyo'n dda i wella pethau.



Mae gweithwyr yn ystyried ei bod hi'n bwysig i gydweithio gyda phobl i'w helpu.

Ond mae'r gweithwyr yn brysur iawn. Mae rhaid iddyn nhw gynorthwyo pobl sydd â llawer o anghenion ac mae hynny'n anodd.



Mae'n anodd i ddod o hyd i ddigon o bobl sydd am gynorthwyo pobl.

Data



Mae'n beth da y gellir casglu data mewn dulliau gwahanol. Nid cyfrif rhifau yn unig ydy hyn.



Mae'r Ddeddf wedi golygu bod mwy o ffocws ar yr hyn sy'n bwysig i bobl.



Mae systemau a ddefnyddiwyd i gofnodi gwybodaeth weithiau yn ddefnyddiol. Ond gallan nhw fod yn rhwystredig i'w defnyddio.

Yn aml, does dim digon o amser i gasglu data yn gywir.

Cyllido'r Ddeddf



Roedd hi'n anodd mai ar gyfnod o brinder arian y daeth y Ddeddf i rym.



Mae datblygu a chynnal gwasanaethau ar gyllid byrdymor yn creu problemau.

Roedd rhai pethau da am geisio arbed arian.



Roedd pobl yn pryderu nad oes digon o arian i helpu pawb sydd angen cymorth.

CASGLIADAU



Cafwyd barn gwbl wahanol gan bobl ar ba mor dda mae'r Ddeddf wedi bod.

Roedden nhw'n meddwl bod y Ddeddf wedi bod yn dda i rai a ddim cystal i eraill.

Beth ddylai ddigwydd nawr?



1. Mae angen i weithwyr a sefydliadau gydweithio'n dda



2. Mae angen rhoi amser ac arian i weithwyr a sefydliadau i sicrhau eu bod yn cydweithio'n dda.



3. Mae angen i weithwyr gasglu gwybodaeth er mwyn deall sut mae pethau'n mynd i bobl, eu gofalwyr a'u teuluoedd.



4. Mae angen cyfathrebu da a pherthynas waith dda rhwng Llywodraeth Cymru a'r awdurdodau lleol.

Beth ddylai Llywodraeth Cymru wneud nesaf?



1. Mae angen cyllid hir-dymor i wella gwasanaethu ac yn fodd o sicrhau bod pobl yn cael eu cynorthwyo'n dda.

2. Dylai iechyd a gwasanaethau cymdeithasol gael ei cyllido yn yr un modd.



3. Mae angen i fwy o weithwyr wybod rhagor am y Ddeddf. Mae hyn yn golygu y byddai pobl yn erbyn y gofal a'r cymorth sydd eu hangen arnyn nhw.



Mae 'na dystiolaeth o'r gwahaniaeth y mae'r Ddeddf wedi'i wneud yng Nghymru.



Mae rhagor i'w wneud er mwyn sicrhau bod y Ddeddf yn gweithio fel y dylai.

Beth fydd yr astudiaeth yn wneud nesaf?



Byddwn yn clywed gan ddefnyddwyr gwasanaeth, gofalwyr, teuluoedd a chymunedau.

Bydd eu lleisiau'n cael eu clywed.



Byddwn yn gweld a ydy'r canlyniadau yn yr adroddiad hwn yn debyg neu'n wahanol.

Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â'r:

Athro Mark Llewellyn

Prifysgol De Cymru

01443 483070

mark.llewellyn@southwales.ac.uk